Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae - Adnodd 17

## Adnodd blaenoriaethu ar gyfer y Cynllun Gweithredu Chwarae

Bydd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae wedi nodi amrywiaeth o gamau i lywio’r Cynllun Gweithredu Chwarae. Mae’n debygol y byddwch yn gweithio drwy restr hir ac amrywiol o gamau gweithredu mewn amser byr.

Bydd angen cytuno ar y blaenoriaethau fel rhan o’r broses o lunio’r Cynllun Gweithredu Chwarae.

I wneud hyn, bydd angen i’r Gweithgor Monitro Chwarae nodi a chytuno ar feini prawf. Dylai’r meini prawf fod yn benodol, yn realistig ac yn gyflawnadwy.

Dyma rai o'r ffactorau y gellid eu hystyried wrth bennu meini prawf:

- a yw hyn yn angen dybryd (h.y. a oes amddifadedd chwarae difrifol?)
- a yw'n debygol iawn y gallwn wneud gwahaniaeth mawr drwy gymryd y cam hwn?
- a yw’r cam yn mynd i’r afael ag anghenion chwarae grŵp agored i niwed?
- a oes gennym yr adnoddau i weithio ar y cam hwn?
- a allwn ddechrau gweithio ar hyn yn syth?

Efallai y byddai hefyd yn ddefnyddiol ystyried y canlynol:

- A yw unrhyw un o'n partneriaid eisoes yn gweithio ar hyn y gallwn weithio gyda nhw neu eu cefnogi?
- Pa gostau sy’n gysylltiedig â’r cam hwn?
- Beth yw manteision y cam hwn?
- A oes gennym y sgiliau a’r arbenigedd yn lleol i gymryd y cam hwn?

Unwaith y cytunir ar bedwar neu bump maen prawf, gellir defnyddio proses leol (megis Dadansoddiad SWOT neu rywbeth tebyg) i flaenoriaethu'r camau gweithredu.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Templed ar gyfer blaenoriaethu camau gweithredu

Sgoriau:
0 - ddim yn bodloni'r meini prawf
1 - yn bodloni'r meini prawf yn rhannol
2 - yn bodloni'r meini prawf yn llawn

| Y thema sy'n cael ei hystyried | Cam gweithredu posibl | Dangosydd | Maen prawf 1 Pwysigrwydd | Maen prawf 2 Capasiti | Maen prawf 3 Cost effeithiol | Maen prawf 4 Mynd i'r afael ag anghenion grwpiau penodol | Maen prawf 5 Ymateb i feysydd polisi eraill | SGÔR |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Datblygu Polisi Rheoli Risg | *Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch yn sicrhau bod elfennau budd a risg yn rhan o asesiadau iechyd a diogelwch fel yr argymhellwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.* | | | | | | 6 |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government